Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

# ECO 4 Flex a Chynllun Inswleiddio Mawr Prydeinig Flex: Ffurflen Gais Deiliad Tŷ

Mae'r ffurflen hon yn caniatáu i aelwydydd yng Ngwynedd wneud cais am ECO4 Flex a Chynllun  Inswleiddio Prydeinig Mawr Flex. Gall aelwydydd nodi ar y ffurflen hon pa un o'r tri llwybr sydd ar gael y gallant fod yn gymwys ar ei gyfer a rhannu eu manylion personol gyda Chyngor Gwynedd trwy osodwr/darparwr ECO4 Flex sy'n gymeradwy gan y Cyngor.

Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen hon i un o'r darparwyr ECO4 Flex sy'n gymeradwy gan Gyngor Gwynedd. Os bydd gosodwr/darparwr ECO4 Flex yn penderfynu mynd â'r ffurflen atgyfeirio ymlaen, bydd asesydd ôl-osod wedyn yn pennu'r mesurau effeithlonrwydd ynni penodol a fyddai o fudd i'ch cartref.

**Pwysig**

- Nid yw'r cais hwn yn gwarantu cymhwysedd ar gyfer ECO4 FLEX a Chynllun Inswleiddio Mawr Prydeinig Flex, ac mae pob cais yn amodol ar asesiadau a gynhelir gan ddarparwr/asiant ECO4 a gymeradwywyd gan Gyngor Gwynedd a chan Gyngor Gwynedd ei hun.
- Sicrhewch eich bod wedi darllen y daflen wybodaeth ECO4 Flex atodedig a Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor yn Rhan 5 o'r ffurflen gais hon.
- **Rhaid cwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon i un o'r darparwyr/asiantau ECO4 Flex sy'n gymeradwy gan Gyngor Gwynedd. Nid yw'r Cyngor yn derbyn ceisiadau yn uniongyrchol gan breswylwyr neu drydydd partïon/cynhyrchwyr arweiniol.** Dylai unigolion/sefydliadau yr ydych yn ymgysylltu â nhw roi eu Hysbysiad Preifatrwydd eu hunain i chi sy'n esbonio sut y byddant yn defnyddio, cadw a rhannu eich data.
- Bydd y wybodaeth a'r manylion personol a roddwch ar y ffurflen hon yn cael eu rhannu â Chyngor Gwynedd a'u defnyddio i asesu eich cymhwysedd ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Inswleiddio Mawr Prydeinig. Nid oes unrhyw reidrwydd arnoch i ddarparu'r wybodaeth hon ond drwy wneud hynny rydych yn rhoi eich caniatâd i rannu'r wybodaeth gyda Chyngor Gwynedd. Os ydych yn ansicr ynghylch dilysrwydd y darparwr/asiant ECO a'u cynnig, yna cysylltwch â'r Cyngor ar 01766 771000.

## RHAN 1
## GWYBODAETH AM AELWYD AC EIDDO

1. Enw a chyfeiriad ………………………………………………………………………………..

………………………………………………..…………………………………………………

2. Rhif Ffôn ..…..……………………………………… 3.E-bost …………………………………

4. Dyddiad Geni …………………………………………………………………………………

5. Nodwch faint sy'n byw yn y tŷ: Oedolion (18-64) …………………………………........
65 oed a throsodd ……………………………………...
Plant (dan 18) ……………………………...................…..

6. Rhowch y manylion a ganlyn am yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef:

Cyfeiriad: ……………………………………………………………………………………

Cod post ………………………………………………………………………………………

| **Math o eiddo (Rhowch gylch am yr un sy'n disgrifio eich eiddo orau)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tŷ** | Canol Teras | Pen Teras | Tŷ Pâr | Ar wahân |
| **Byngalo** | Canol Teras | Pen Teras | Tŷ Pâr | Ar wahân |
| **Maisonette** | 1 neu 2 wal allanol | 3 wal allanol | | |
| **Fflat** | 1 neu 2 wal allanol | 3 wal allanol | | |

7. System wresogi bresennol (**rhowch gylch**) Nwy o'r prif gyflenwad, Olew, LPG, Trydan, Tanwydd solet):
Arall ………………………….

8. Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) Eiddo os yn wybyddus ………………………………

9. Ydy eich eiddo wedi ei Insiwleiddio? Nodwch os gwelwch yn dda e.e. Llofft, Ceudod, Insiwleiddio Wal Allanol, Insiwleiddion Wal Mewnol, Llawr..............................(Cyflwynwych dystiolaeth os ar gael).

10. Ydych chi'n byw yn yr eiddo fel eich unig neu brif breswylfa? Ydw □ Nac ydw □

(a) Ydych chi wedi byw yn yr iddo drost i 3 mis? Ydw □ Nac ydw □
*****(os Na yw'r ateb, ail gyflwynwch y cais wedi i chi fyw yn yr eiddo am 3 mis os gwewlch yn dda – ni fydd y cais yn cael ei dderbyn fel arall)**

(b) Ai chi yw perchennog yr eiddo? Ie □ Na □
(c) Ydych chi'n denant? Ydw □ Nac ydw □

11. Os ydych yn denant yn yr eiddo, rhowch fanylion eich landlord

Enw'r Landlord ……………………………………………………………………………..

Cyfeiriad ………………………………………………………………………………………

Rhif Ffôn ……………………………………………… E-bost ……………………………….

## RHAN 2
## LLWYBRAU CYMHWYSEDD ECO4 FLEX

Nodwch fod gofyn i chi ddarparu tystiolaeth/dogfennaeth ategol sy'n cadarnhau'r wybodaeth a roddwch yn yr adran hon, neu bydd eich cais yn cael ei wrthod. Dangosir enghreifftiau o dystiolaeth ategol y gallwn ei derbyn yn rhan 5 o'r ffurflen gais hon.

**Ticiwch un o'r llwybrau flex isod y credwch allai fod yn berthnasol i'ch aelwyd chi.**
Os nad ydych yn gwybod beth yw sgôr tystysgrif perfformiad ynni (EPC) eich cartref, nodwch pa lwybrau y gallech fod yn gymwys amdanynt hyd eithaf eich gwybodaeth.

### □ Llwybr 1 - Incwm Isel

Aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr bandiau EPC/SAP D-G ac aelwydydd sector rhentu preifat E-G gyda **CHYFANSWM CYFUNOL** incwm blynyddol gros o **BOB** ffynhonnell **yn llai na £31,000**.
(Dyma incwm cyfunol aelwyd gyfan, gan gynnwys pob unigolyn 18+ oed sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw, fel lletywyr a pherthnasau oedrannus ac ati, a rhaid iddo gynnwys POB incwm a dderbynnir gan HOLL breswylwyr y cartref, gan gynnwys budd-daliadau heb brawf modd, llog o gynilion, taliadau costau byw ac ati.)

Manylion y preswylwyr sy'n cyfrannu at incwm yr aelwyd:

Enw ……………………………………….. Oedran ………… Safle yn y teulu ………………..

Enw ……………………………………….. Oedran ………… Safle yn y teulu ………………..

Enw ……………………………………….. Oedran ………… Safle yn y teulu ………………..

Enw ……………………………………….. Oedran ………… Safle yn y teulu ………………..

Enw ……………………………………….. Oedran ………… Safle yn y teulu ………………..

Enw ……………………………………….. Oedran ………… Safle yn y teulu ………………..

Cadarnhewch **GYFANSWM** incwm blynyddol gros yr aelwyd: £………………………………..

□ **Llwybr 2 - Targedu procsi**

Bandiau EPC/SAP E-G ar gyfer aelwydydd sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac aelwydydd sector rhentu preifat sy'n cyrraedd dau o'r procsis a ganlyn:
**(Ni ellir defnyddio Procsis 1 a 3 gyda'i gilydd; nid yw Procsi 5 ar gael gan nad yw Cyngor Gwynedd yn rhedeg cynllun sy'n bodloni'r meini prawf.)**

| |
|---|
| □ **Procsi 1:** (ni ellir ei ddefnyddio gyda Phrocsi 3)<br><br>Eiddo yn narpariaeth Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) 1-3 Cymru ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019[1]<br><br>Lleolir yr eiddo yn un o'r ardaloedd LSOA a ganlyn:<br><br>Peblig (Caernarfon), Cadnant (Gwynedd), Bowydd a Rhiw, Marchog 2, Marchog 1, Talysarn.<br><br>Cyfeiriwch at fapiau LSOA y gellir cael atynt trwy Wefan Cyngor Gwynedd:<br><br>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (llyw.cymru) , Mapiau \| Cyngor Gwynedd (llyw.cymru)<br><br>Enw LSOA …………………… |
| □ **Procsi 2:** Mae gan unigolyn ar yr aelwyd hawl i ostyngiad Treth Gyngor oherwydd incwm isel yn unig. |
| □ **Procsi 3: (ni ellir ei ddefnyddio gyda Phrocsi 1)**<br><br>Mae unigolyn ar yr aelwyd mewn perygl o ddioddef oerfel am un o'r rhesymau a ganlyn:<br><br>1 Recommendations \| Excess winter deaths and illness and the health risks associated with cold homes \| Guidance \| NICE<br><br>pobl sydd â chyflyrau cardiofasgwlaidd<br><br>pobl gyda chyflyrau anadlol (yn enwedig, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma mewn plant<br><br>pobl â phroblemau iechyd meddwl |

| |
|---|
| pobl anabl<br><br>pobl hŷn (65 oed a throsodd)<br><br>aelwydydd gyda phlant ifanc (o'r newydd-anedig i oedran ysgol)<br><br>merched beichiog |
| □ **Procsi 4:** Mae plentyn ar yr aelwyd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, oherwydd incwm isel. |
| **Procsi 5:** Ddim ar gael yng Ngwynedd |
| **Procsi 6:** Mae unigolyn ar yr aelwyd wedi ei gyfeirio at yr awdurdod lleol am gefnogaeth gan ei gyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth oherwydd ei fod yn cael trafferth talu ei filiau trydan a/neu nwy. |

□ **Llwybr 3 - Atgyfeiriadau'r GIG**

Aelwydydd yn eiddo i berchen-feddianwyr bandiau EPC D-G ac aelwydydd sector rhentu preifat E-G a ddynodwyd ac a atgyfeiriwyd gan Feddyg Teulu, Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth y GIG, gan fod unigolyn ar yr aelwyd yn dioddef o afiechyd difrifol neu hirdymor oherwydd un o'r cyflyrau isod, ac effeithir yn andwyol ar eu hiechyd trwy fyw mewn tŷ oer.

Ticiwch y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

□ cyflwr cardiofasgwlaidd
□ cyflwr anadlol
□ ataliad imiwnedd
□ symudedd cyfyngedig

Rhowch lythyr gan yr unigolyn perthnasol a enwir uchod yn cadarnhau'r cyflwr iechyd (neu fel arall, templed llythyr atgyfeirio'r GIG a welir ar ein tudalen ar y we yma): ECO (llyw.cymru)

**Mae'n rhaid i'r gosodwr/darparwr ECO4 Flex sy'n gymeradwy gan y Cyngor gwblhau'r adran hon.  Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at wrthod y cais gan y Cyngor.**

**RHAN 3**
**MANYLION Y GOSODWR/DARPARWR ECO4 FLEX SY'N GYMERADWY GAN Y CYNGOR**

| | |
|---|---|
| Enw'r gosodwr/darparwr ECO4 Flex sy'n cyflwyno cais i'r Cyngor | |
| Hyd eithaf fy ngwybodaeth, cadarnhaf fod y wybodaeth a roddir gan yr ymgeisydd yn wir ac yn gywir a bod yr aelwyd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig a bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r cais hwn yn unol â gofynion Ofgem (gweler Canllawiau ECO4: Great British Insulation Scheme and ECO4 Local Authority Administration Guidance \| Ofgem) | |
| **Dyddiad:** | **Llofnod:** |

Mesur(au) effeithlonrwydd ynni a/neu ynni adnewyddadwy a gynigir (i'w cwblhau gan y gosodwyr/darparwyr ECO4):

**Mesurau ECO 4 Flex**

- ______________________________
- ______________________________
- ______________________________
- ______________________________

**Mesurau Cynllun Iniwleiddio Mawr Prydeinig Flex**

- __________________________
- __________________________
- __________________________
- __________________________

__________________________

## RHAN 4
## CYTUNDEB, CYDSYNIAD A DATGANIAD YR YMGEISYDD

**RHYBUDD: Os ydych yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol, gallech fod yn agored i gael eich erlyn.**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol yn penderfynu a ydw i'n gymwys ar gyfer ECO4 Flex?**

Bydd eich manylion yn cael eu prosesu gan y Tîm Ynni yng Nghyngor Gwynedd fydd yn asesu eich cais yn erbyn y meini prawf a osodwyd gan ddefnyddio Datganiad Bwriad y Cyngor ar Gymhwysedd ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig (ar gael trwy wefan ECO Cyngor Gwynedd) ECO (llyw.cymru)

☐ Rwyf yn datgan bod y wybodaeth a gyflwynir gennyf am fy amgylchiadau ariannol a phersonol yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall y bydd ar Gyngor Gwynedd angen tystiolaeth i gadarnhau'r cais hwn.
**(Rhybudd: Os ydych yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol, gallech fod yn agored i gael eich erlyn.)**

☐ Rwyf wedi darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd yn Rhan 6 o'r ffurflen gais hon a'r ddogfen wybodaeth bellach. Rwyf yn deall sut y bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio fy ngwybodaeth fel a amlinellir yn y Rhybudd Preifatrwydd a fy hawliau dan ddeddfwriaeth bresennol diogelu data yn cynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Rwy'n rhoi caniatâd i'r wybodaeth (fy ngwybodaeth bersonol a data categori arbennig) a ddarperir yn y ffurflen hon gael ei defnyddio gan Gyngor Gwynedd i asesu fy nghymhwysedd ar gyfer ECO4 Flex a datganiad Cynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig ac i rannu fy manylion cyswllt a phersonol (fy ngwybodaeth bersonol a data categori arbennig) gyda thrydydd partïon ar y cyd â'm cais am ECO4 Flex Awdurdod Lleol.

☐ Deallaf nad datganiad yw'r ddogfen hon, ac na fydd yn gwarantu fy nghymhwysedd ar gyfer mesurau ECO4. Nid yw cymhwysedd a'r datganiad gan Gyngor Gwynedd yn gwarantu gosod unrhyw fesurau ac y bydd argaeledd cyllid a mesurau ECO4 yn destun cydlynydd ôl-osod.

☐ Os byddaf yn derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni o dan y cynllun hwn, deallaf y bydd y contract rhyngof fi a gosodwr/darparwr ECO4 Flex ac nid gyda Chyngor Gwynedd.

Deallaf, os bydd anghydfod yn codi, na fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad.

☐ Deallaf nad yw Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled o ganlyniad i waith sy'n gysylltiedig â'r ECO4 Flex a'r Cynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig a'r gosodwr/darparwr/asiant. Nid yw'r Cyngor yn cymeradwyo ansawdd gwaith y darparwr/gosodwr/asiant ECO4 Flex, ac os bydd angen i mi fod yn fodlon ynghylch ansawdd y gwaith gosod yna byddaf yn dibynnu ar fy arbenigwr annibynnol fy hun.

☐ Rwy'n cadarnhau bod y syrfëwr/cynhyrchydd arweiniol ac ati yr wyf yn cyflwyno'r ffurflen gais hon iddo wedi dangos llun adnabod i mi; wedi esbonio'n glir pwy ydyn nhw a pha sefydliad maen nhw'n gweithio iddo; wedi nodi pwrpas eu hymweliad; a rhoi eu manylion cyswllt i mi ynghyd â hysbysiad preifatrwydd eu cwmni yn egluro sut y byddant yn defnyddio, cadw a rhannu fy ngwybodaeth.

| Dyddiad | Llofnod **POB** preswylydd yn y cartref sydd wedi darparu gwybodaeth bersonol yn y ffurflen gais hon ar gyfer gwiriadau cymhwysedd: |
|---|---|
| | |

**RHAN 5**
**DARPARU TYSTIOLAETH O GYMHWYSEDD AR GYFER ECO4 FLEX**

Mae'r gofynion tystiolaethol isod wedi'u nodi yng nghanllawiau Ofgem, a gyhoeddwyd ar 10 Ebrill 2024
ECO4 and GBIS Flex Local Authority Guidance (ofgem.gov.uk)

**Llwybr 1: Incwm yr Aelwyd**

**Dylid rhoi tystiolaeth o holl ffynonellau incwm perthnasol sy'n gynwysedig yn incwm blynyddol gros aelwyd. Mae'r mathau o dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys:**

□ Ffurflenni treth, yn cynnwys ffurflenni treth hunanasesu
□ Slipiau cyflog

□ Datganiadau pensiwn
□ Datganiadau buddion
□ Dogfennaeth P60 neu P45
□ Dogfennaeth P11D
□ Datganiad Enillion L17
□ Llythyr SA302
□ Contract cyflogaeth sy'n dangos ffigur cyflog blynyddol

**Dylid darparu cadarnhad hefyd o nifer yr oedolion sy'n byw yn y cyfeiriad. Mae'r mathau o dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys:**

□ Llythyrau'r dreth gyngor
□ Cytundebau tenantiaeth
□ Datganiadau morgais
□ Datganiadau'r gofrestr etholiadol
□ Cyfuniad o'r canlynol sy'n dangos cyfeiriadau cyfatebol i dderbynwyr:
□ Biliau cyfleustodau
□ Llythyrau budd-daliadau
□ Datganiadau ariannol
□ Llythyrau HMRC neu'r DWP
□ Llythyrau cofrestru efo Meddyg Teulu neu Ddeintydd

Nid yw'r rhestrau hyn **yn hollgynhwysol** a gellir defnyddio mathau eraill o dystiolaeth fel **datganiadau banc** os nad yw'r ffynonellau a restrir uchod ar gael. I sicrhau bodloni safonau cydymffurfio, **rydym yn argymell bod y dystiolaeth a ddarperir yn gyfuniad o wahanol fathau o ddogfennau i gadarnhau incwm blynyddol gros aelwyd, lle bo hynny'n bosib.**

**Ni ellir dibynnu ar hunanddatganiad a roddir gan aelod o'r cartref fel tystiolaeth o incwm blynyddol gros ar ei ben ei hun.**

**Dylid dyddio'r holl ddogfennau ddim mwy na 12 mis cyn y diwrnod y llofnodir y Datganiad.** Dylid defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf sydd ar gael o bob dogfen, lle bo'n bosib. **Os nad oes tystiolaeth ar gael o'r cyfnod hwn, rydym yn argymell defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael cyn yr amser hwn.**

**Llwybr 2: Targedu Procsi**

### Procsi 1

I roi tystiolaeth o hyn, gellir defnyddio sgrinlun gan yr ALl yn cadarnhau bod eiddo'r defnyddiwr o fewn ardal LSOA gymwys, gyda chefnogaeth data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

### Procsi 2

Mae'r mathau o dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys:

□ copi o fil treth y cyngor yn cynnwys gostyngiad (h.y. ffotograff, e-bost, neu PDF gydag enw a chyfeiriad)
□ llythyr yn cadarnhau'r gostyngiad gan yr ALl.

### Procsi 3

Mae'r mathau o dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys:
□ **Llythyr atgyfeirio wedi'i lofnodi** gan feddyg, meddyg teulu, neu weithiwr iechyd proffesiynol perthnasol, wedi ei anfon o gyfeiriad e-bost dilys y GIG
□ Neu o leiaf un o'r mathau o dystiolaeth a ganlyn:

**Crynodeb o Gofnod Gofal y GIG** sy'n datgan bod y claf yn dioddef o, neu'n derbyn meddyginiaeth ar gyfer, cyflwr iechyd a restrir yng nghanllawiau NICE. Rhaid dilysu hyn gyda stamp practis meddyg teulu.

**I'r rhai hynny sydd ag afiechydon cardiofasgwlaidd neu anadlol**:
▪ Llythyrau diagnosis gan ysbyty
▪ Llythyrau atgyfeirio gan weithiwr cymdeithasol
▪ Copïau o bresgripsiynau rheolaidd
▪ Copïau o lythyrau atgyfeirio at grwpiau sy'n helpu pobl sydd â'r cyflyrau hyn.

**I bobl gydag anabledd:**
▪ Hysbysiad dyfarnu Taliad Annibynnol Personol (PIP)
▪ Hysbysiad dyfarnu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
▪ Hysbysiad dyfarnu Lwfans Gweini

**I'r rhai sy'n 65 oed neu drosodd**:
▪ Pasbort
▪ Tystysgrif geni
▪ Copi o bàs bws
▪ Datganiad pensiwn

**I aelwydydd gyda phlant ifanc (5 oed neu lai):**
▪ Pasbort y plentyn
▪ Tystysgrif geni'r plentyn

**Ar gyfer beichiogrwydd:**
▪ ffurflen MAT B1 sy'n dangos tystiolaeth o feichiogrwydd ar y dyddiad y llofnododd yr ALl y datganiad.

Nid yw'r rhestrau hyn **yn hollgynhwysol a gellir defnyddio mathau eraill o dystiolaeth** os nad yw'r ffynonellau a restrir uchod ar gael. I sicrhau bodloni safonau cydymffurfio, rydym yn argymell bod y dystiolaeth a ddarperir yn **gyfuniad o wahanol fathau o ddogfennau**, lle bo hynny'n bosib.

**Dylid dyddio'r holl ddogfennau ddim mwy na 12 mis cyn y diwrnod y llofnodir y Datganiad.** Dylid defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf sydd ar gael o bob dogfen, lle bo'n bosib.

**Procsi 4:**

Mae'r dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys: **Dogfennaeth y Gwasanaeth Gwirio Cymhwysedd (ECS)** yn dangos cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel, a ddarperir gan yr Adran Addysg neu ysgol y plentyn.

**Procsi 5: Ddim ar gael yng Ngwynedd**

**Procsi 6:**

Mae'r dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys **llythyr atgyfeirio wedi'i lofnodi**, ynghyd â thystiolaeth o ddyled nwy a/neu drydan.

**Llwybr 3: Atgyfeiriadau Meddygol**

I ddangos tystiolaeth bod atgyfeiriad wedi'i wneud, rhaid cael datganiad gan ddarparwr gofal iechyd perthnasol. Mae templed o lythyr Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol GIG ar gael ar dudalen We ECO4 Cyngor Gwynedd: ECO (llyw.cymru)

Mae darparwr gofal iechyd perthnasol yn golygu:

• **Unigolyn a restrir yn y Gofrestr Meddygon Teulu:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw feddyg teulu a gyflogir mewn practis GIG neu breifat. Canllaw Gweinyddu Awdurdod Lleol Cynllun Inswleiddio Mawr Prydeinig ac ECO4
• **Un sy'n gyflogedig gan Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG:** Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr iechyd sy'n gweithio mewn ysbyty neu glinig sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG
• **Un sy'n gyflogedig gan Fwrdd Iechyd y GIG**

## RHAN 6
## RHYBUDD PREIFATRWYDD ECO 4 a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i wella iechyd y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i leihau tlodi tanwydd ar draws Gwynedd. Un o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn gwneud hyn yw drwy weithio gyda phartneriaid cyflawni o dan ECO4 Flex a Chynllun Inswleiddio Mawr Prydeinig i helpu i wella'r stoc dai leiaf effeithlon o ran ynni, lle mae teuluoedd bregus, incwm isel yn byw mewn tlodi tanwydd.

Bydd y Cyngor yn ymdrin â'r holl ddata personol a brosesir ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig yn unol â gofynion yr holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd berthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU yn cynnwys GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 (a'r rheoliadau a wnaed o dan hynny) a Rheoliadau Preifatrwydd a

Chyfathrebiadau Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'i diwygiwyd. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae data personol yn cael ei ddefnyddio a'i gad

w gan y Cyngor mewn perthynas ag ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig. Gellir gweld Hysbysiad Preifatrwydd cyffredinol y Cyngor yma - Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Gwynedd Hysbysiadau Preifatrwydd Gwasanaethau'r Cyngor (llyw.cymru)

## Beth yw data personol?

Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw adnabyddedig neu adnabyddadwy.

## Beth yw data categori arbennig?

Mae data categori arbennig yn golygu data personol sydd angen rhagor o warchodaeth am ei fod yn sensitif. Yn achos ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig, mae data categori arbennig yn cyfeirio at wybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd unigolyn byw adnabyddedig neu adnabyddadwy.

## Y dibenion yr ydym yn defnyddio eich data personol ar eu cyfer - pam rydym yn ei gasglu?

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu amdanoch chi yn cael ei defnyddio at ddiben(ion):

- **Cymorth i gael gafael ar gyllid sydd ar gael ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni i wella perfformiad ynni eich cartref trwy gyllid ECO4 a Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig (er enghraifft, uwchraddio gwres ac inswleiddio).**
- **Atgyfeirio aelwydydd cymwys am gymorth o dan y cynllun uchod.**
- **Asesiad o gymhwysedd preswylydd(wyr) yr aelwyd ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Prydain Fawr.**

Y sail gyfreithlon pam yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth yw:

Mae prosesu'n angenrheidiol o dan Erthygl 6 e) GDPR y DU ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd.

Pan fo data Categori Arbennig yn cael ei brosesu, y sail gyfreithiol yw Erthygl 9 (2) g) rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol (gweler y ddeddfwriaeth isod). Yr amodau prosesu er budd cyhoeddus sylweddol yw 6) dibenion statudol a llywodraethol.

**Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni) 2022**
**Deddf Cartrefi Cynnes a Chadwraeth Ynni 2000**
**Deddf yr Economi Ddigidol 2017 A 35**

## Beth os nad ydych yn darparu data personol?

Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom pan fyddwn yn gofyn amdani, gallai hyn olygu na fydd yr Awdurdod yn gallu asesu eich cais am gymorth o dan Gynllun ECO4 Flex a Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig.

## Pa fath o wybodaeth ydym ni'n ei defnyddio?

Rydym yn casglu'r mathau a ganlyn o ddata personol amdanoch chi i ddarparu'r gwasanaeth hwn (cesglir y cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth hon fel rhan o'ch cais yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'r llwybr cymhwysedd a fwriadwyd):

Ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig, mae Ofgem angen 'Datganiad' cymhwysedd ymgeiswyr i gynnwys enw a chyfeiriad deiliad y tŷ ynghyd â Chategori cydymffurfiad perthnasol ar gyfer Cynllun ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig. Mae angen gwybodaeth i bennu cymhwysedd yn seiliedig ar amrediad meini prawf y cynllun:

- **Gwybodaeth gyswllt** – enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost.
- **Categori cymhwysedd** (er enghraifft, dyddiad geni/oedran, incwm, treth gyngor, gwybodaeth iechyd i dynnu sylw at beryglon byw mewn cartref oer, prydau ysgol am ddim, aelwyd a ddiffinnir gan y Cyngor fel un fregus mewn cynllun a gyhoeddwyd, ac ati).
- **Cyfansoddiad yr aelwyd -** nifer yr oedolion, plant a phreswylwyr 65 oed a throsodd sy'n byw ar yr aelwyd.
- **Statws blaenoriaeth yr aelwyd** (h.y. gall preswylydd gyda salwch terfynol fod angen blaenoriaeth i gwblhau gwaith).
- **Manylion ariannol/tystiolaeth o incwm** a **chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, ad-daliad treth gyngor, a budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.**
- **Gwybodaeth am iechyd ar gyfer salwch yn ymwneud â'r oerfel** sy'n berthnasol i gymhwysedd y cynllun/iau.
- **Gwerthuso a monitro deilliannau cyffredinol y cynllun yn ei gyfanrwydd**, a allai gynnwys data lefel cyfeiriad ar gyfer arbedion carbon, arbedion ariannol, ac unrhyw lefelau buddsoddi. Mae hyn at ddibenion monitro ac archwilio'r Cyngor ac i atal cyfrif dwbl.

Bydd tystiolaeth/dogfennau sy'n nodi/cadarnhau'r uchod at ddibenion cymhwysedd y cynllun yn cael eu rhannu rhwng y Cyngor, y darparwr/gosodwr ECO4 Flex ac Ofgem (Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan).

## Ydym ni'n defnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd o ffynonellau eraill?

Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, rydym yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan y **darparwr/gosodwr ECO4 Flex cymeradwy** a ddefnyddiwyd gennych i ymgeisio am y cynllun.

**(Mae rhestr of osodwyr/darparwyr cymeradwy ar wefan Cyngor Gwynedd** ECO (llyw.cymru)) Cesglir y mathau a ganlyn o ddata personol, yn dibynnu ar eich amgylchiadau:

- **Gwybodaeth gyswllt** – enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost.
- **Categori cymhwysedd** (er enghraifft, dyddiad geni/oedran, incwm, treth gyngor, gwybodaeth iechyd i dynnu sylw at beryglon byw mewn cartref oer, prydau ysgol am ddim, aelwyd a ddiffinnir gan y Cyngor fel un fregus mewn cynllun a gyhoeddwyd, ac ati).
- **Cyfansoddiad yr aelwyd -** nifer yr oedolion, plant a phreswylwyr 65 oed a throsodd sy'n byw ar yr aelwyd.
- **Statws blaenoriaeth yr aelwyd** (h.y. gall preswylydd gyda salwch terfynol fod angen blaenoriaeth i gwblhau gwaith).
- **Manylion ariannol/tystiolaeth o incwm** a **chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, ad-daliad treth gyngor, a budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.**
- **Gwybodaeth am iechyd ar gyfer salwch yn ymwneud â'r oerfel** sy'n berthnasol i gymhwysedd y cynllun/iau.
- **Gwerthuso a monitro deilliannau cyffredinol y cynllun yn ei gyfanrwydd**, a allai gynnwys data lefel cyfeiriad ar gyfer arbedion carbon, arbedion ariannol, ac unrhyw lefelau buddsoddi. Mae hyn at ddibenion monitro ac archwilio'r Cyngor ac i atal cyfrif dwbl.

## Trosglwyddo eich gwybodaeth dramor

Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Gyda phwy y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu (yn fewnol ac yn allanol)?

Mae angen gwybodaeth i bennu cymhwysedd yn seiliedig ar amrediad meini prawf y cynllun. Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol ac sy'n ofynnol i bob cynllun pwrpasol/ffynhonnell ariannu a rennir. Gall Cyngor Gwynedd rannu eich manylion cyswllt a phersonol gyda chyflenwyr ynni sy'n ariannu, gosodwyr, ac Ofgem (gweinyddwr y cynlluniau). I gael manylion am sut y bydd unrhyw unigolyn neu sefydliad yn casglu ac yn prosesu eich data, dylech gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r derbynwyr a ganlyn:

**<u>Yn allanol:</u>**

Ofgem (Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan): Ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig (GBIS), mae Ofgem angen 'Datganiad' cymhwysedd ymgeiswyr i gynnwys enw a chyfeiriad deiliad y tŷ ynghyd â chategori cydymffurfiad perthnasol ar gyfer Cynllun ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig. Bydd Ofgem hefyd yn archwilio'r Cyngor yn achlysurol ac fel rhan o'u proses archwilio bydd arnynt angen tystiolaeth o gymhwysedd yr aelwyd ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Inswleiddio Mawr Prydeinig. Ar y sail hon, efallai y rhennir y wybodaeth a'r dystiolaeth a roddwch ar eich ffurflen gais yn cadarnhau eich cymhwysedd, gydag Ofgem. Mae'r manylion am sut y bydd Ofgem yn casglu ac yn prosesu eich data mewn perthynas â'r Cynllun ECO4 wedi eu cynnwys yn hysbysiad preifatrwydd ECO | Ofgem ar wefan OFGEM. Hysbysiad preifatrwydd ECO | Ofgem

• Darparwyr/gosodwyr ECO4 Flex a Chynllun Flex Insiwleiddio Prydain Fawr sy'n gymeradwy gan y Cyngor: Dyma'r cwmnïau y mae'n rhaid i aelwydydd wneud cais drwyddynt i gael eu hasesu ar gyfer ECO4 Flex a Chynllun Flex Insiwleiddio Mawr Prydeinig. Mae sefyllfaoedd penodol eraill lle gall fod gofyn i ni ddatgelu gwybodaeth amdanoch, fel:
• Pan fo gofyn cyfreithiol i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth.
• Pan fo gofyn datgelu gwybodaeth i atal neu ganfod trosedd.
• Pan fo datgelu er budd hanfodol yr unigolyn dan sylw.

**Yn fewnol:**

Staff awdurdodedig yn unig fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth am ei bod yn ofynnol iddynt ei phrosesu at y dibenion a amlinellir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

## Gwybodaeth Bellach

**Manylion mesurau diogelu - Beth ydym yn ei wneud â'r wybodaeth, a pha mor hir rydym yn ei chadw.**

Bydd eich data yn cael ei gadw yn rhwydwaith diogel Cyngor Gwynedd ac ni fydd yn cael ei brosesu y tu allan i'r DU. Mae eich data yn cael ei gadw gan Gyngor Gwynedd drwy gydol ECO4, ac am gyfnod o hyd at 5 mlynedd ar ôl i ECO4 orffen. Staff awdurdodedig yn unig fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth am ei bod yn ofynnol iddynt ei phrosesu at y dibenion a amlinellir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

**Beth yw fy hawliau o ran data?**

Mae eich gwybodaeth bersonol yn eiddo i chi ac, yn unol â hysbysiad preifatrwydd cyffredinol y Cyngor, mae gennych yr hawl:

- I gael gwybod sut y byddwn yn ei phrosesu.
- I gael mynediad at y wybodaeth - gofyn am gopi o'r hyn yr ydym yn ei gadw amdanoch chi ac mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin os dymunwch (os ydych wedi ei darparu i ni yn electronig ar gyfer prosesu awtomataidd, byddwn yn ei dychwelyd yn yr un modd).
- I'w chael wedi ei chywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.
- I'w chael wedi ei dileu (lle nad oes gofyn cyfreithiol arnom i'w chadw).
- I gyfyngu ar sut y byddwn yn ei phrosesu.
- I dynnu eich caniatâd yn ôl.
- I gyflwyno cwyn: e.e. yn fewnol gyda'r Awdurdod Lleol ac yn allanol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), y corff annibynnol sy'n goruchwylio diogelu data a'r GDPR (gweler isod).

## Cwynion ac Ymholiadau

Mae Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn am

hyn o ddifri. Rydym yn annog pobl i dynnu ein sylw os ydynt yn credu ein bod yn casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion hollgynhwysfawr o bob agwedd ar y ffordd yr ydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol neu eglurhad yn ôl yr angen. Dylai unrhyw geisiadau am hyn gael eu hanfon i'r cyfeiriad isod:

Diogelu Data

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl

Caernarfon

LL55 1SH

E-bost: rhyddidgwybodaeth@gwynedd.llyw.cymru

Hysbysiadau Preifatrwydd Gwasanaethau'r Cyngor (llyw.cymru)

Gwybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (llyw.cymru)

Polisi-Rhyddid-Gwybodaeth.pdf (llyw.cymru)

Os ydych eisiau gwneud cwyn ynglŷn â'r modd yr ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef y bwrdd statudol sy'n goruchwylio cyfraith ddiogelu data:

**Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF, Rhif Ffôn: 0303 123 1113, Gwefan:** Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)